

Comisiwn Plaid Cymru:

ADOLYGIAD GWRTHSEMITIAETH

gan Liz Saville Roberts AS

Mawrth 2021

Cynnwys

1	Cyflwyniad	3
1.1	Amcanion cyfansoddiadol Plaid Cymru a Datganiad Gwrthsemitiaeth.....	3
	Datganiad Gwrthsemitiaeth Plaid Cymru.....	4
1.2	Cylch Gorchwyl yr Adolygiad Gwrthsemitiaeth.....	5
1.3	Methodoleg yr Adolygiad Gwrthsemitiaeth	6
2	Polisiau, deddfwriaeth, a chyd-destun perthnasol	7
2.1	Datganiad Gwrthsemitiaeth Plaid Cymru a diffiniad gweithredol yr IHRA o wrthsemitiaeth ynghyd ag enghreifftiau.....	7
2.2	Deddf Cydraddoldeb 2010	10
2.3	Gwrthsemitiaeth y Chwith.....	11
2.4	Rôl cyfryngau cymdeithasol mewn dadl wleidyddol.....	13
3	Cwynion hanesyddol yn ymwneud â gwrthsemitiaeth	14
3.1	Sylwadau ar weithdrefnau cwyno fel yr adlewyrchir mewn cwynion hanesyddol sy'n ymwneud â gwrthsemitiaeth.....	15
4	Argymhellion	17
4.1	Cymunedau Iddewig ac ymddiriedaeth ym mhroses cwynion Plaid Cymru	17
4.2	Cyfryngau cymdeithasol: protocol cyfathrebu	21
4.3	Cofrestr Genedlaethol o Ymgeiswyr	23
4.4	Ymgysylltiad y Blaid â chymunedau a materion gwleidyddol BME	25
4.5	Sefydlu diwylliant nad yw'n goddef gwrthsemitiaeth.....	27
4.6	Cynnal newid diwylliant	29

1 Cyflwyniad

Mae Plaid Cymru wedi ymrwymo i fod yn lle diogel i Iddewon ac i chwarae ein rhan i sicrhau bod Iddewon yn ddiogel yng Nghymru a'r Deyrnas Gyfunol. Mae'r ymrwymiad hwn wedi'i ymgorffori yn Natganiad Gwrthsemitiaeth y Blaid.

Mae Arweinyddiaeth y Blaid yn benderfynol y dylid ymgorffori'r Datganiad Gwrthsemitiaeth ym mholisiau, gweithdrefnau, strwythurau a diwylliant y Blaid. I'r perwyl hwn, ac yn dilyn trafodaeth gyda Bwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain ynghylch nifer o gwynion gwrthsemitiaeth a wnaed yn erbyn aelodau'r Blaid a chynrychiolwyr dros y ddwy flynedd ddiwethaf, comisiynodd yr Arweinydd adolygiad gan Arweinydd Grŵp Seneddol San Steffan.

1.1 Amcanion cyfansoddiadol Plaid Cymru a Datganiad Gwrthsemitiaeth

Mae gan Blaid Cymru nod cyfansoddiadol datganedig 'i adeiladu cymuned genedlaethol yn seiliedig ar ddinasyddiaeth gyfartal, parch at wahanol draddodiadau a diwylliannau a gwerth cyfartal pob unigolyn, beth bynnag fo'u hil, cenedligrwydd, rhyw, lliw, cred, rhywioldeb, oedran, gallu neu gefndir cymdeithasol'. Dilynir y datganiad hwn gyda'r frawddeg ychwanegol: 'Dyma werthoedd craidd y Blaid.'

Mabwysiadwyd y Datganiad Gwrthsemitiaeth gan y Blaid ar 29 Chwefror 2020.

Datganiad Gwrthsemitiaeth Plaid Cymru

Mae gwrthsemitiaeth yn ganfyddiad penodol o Iddewon, y gellir ei fynegi fel casineb tuag at Iddewon. Cyfeirir amlygiadau rhethregol a chorfforol o wrthsemitiaeth tuag at unigolion Iddewig neu an-Iddewig a / neu eu heiddo, tuag at sefydliadau cymunedol Iddewig a chyfleusterau crefyddol.

Mae'r canllawiau'n tynnu sylw at amlygiadau o wrthsemitiaeth gan eu bod yn cynnwys enghreifftiau cyfoes o wrthsemitiaeth mewn bywyd cyhoeddus, y cyfryngau, ysgolion, y gweithle, ac yn y maes crefyddol, gan ystyried y cyd-destun cyffredinol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

1. Galw am, cynorthwyo, neu gyfiawnhau lladd neu niweidio Iddewon yn enw ideoleg radical neu farn eithafol ar grefydd.
2. Gwneud honiadau celwyddog, dad-ddyneiddio, pardduo, neu ystrydebol am Iddewon fel y cyfryw neu bŵer Iddewon fel cyfunol - megis, yn enwedig ond nid yn gyfan gwbl, y myth am gynllwyn Iddewig byd-eang neu Iddewon sy'n rheoli'r cyfryngau, yr economi, y llywodraeth neu sefydliadau cymdeithasol eraill.
3. Cyhuddo Iddewon fel pobl o fod yn gyfrifol am gamwedd go iawn neu ddychmygol a gyflawnwyd gan berson neu grŵp Iddewig, neu hyd yn oed am weithredoedd a gyflawnwyd gan bobl nad ydynt yn Iddewon.
4. Gwadu ffaith, cwmpas, mecanweithiau (e.e. siambrau nwy) neu fwriadoldeb hil-laddiad y bobl Iddewig yn nwylo'r Almaen Sosialaidd Genedlaethol a'i chefnogwyr a'i chynorthwywyr yn ystod yr Ail Ryfel Byd (yr Holocaust).
5. Cyhuddo'r Iddewon fel pobl, neu Israel fel gwladwriaeth, o ddyfeisio neu orliwio'r Holocaust.
6. Cyhuddo dinasyddion Iddewig o fod yn fwy ffyddlon i Israel, neu i flaenoriaethau honedig Iddewon ledled y byd, nag i fuddiannau eu cenedloedd eu hunain.
7. Gwadu'r hawl i'r bobl Iddewig i hunanbenderfyniad, e.e., trwy honni bod bodolaeth Gwladwriaeth Israel yn ymdrech hiliol.
8. Cymhwyso safonau dwbl trwy fynnu ymddygiad na ddisgwylir nac y gofynnir amdano gan unrhyw genedl ddemocrataidd arall.
9. Ddefnyddio'r symbolau a'r delweddau sy'n gysylltiedig â gwrthsemitiaeth glasurol (e.e. honiadau o Iddewon yn lladd Iesu neu enllib gwaed) i nodweddu Israel neu Israeliaid.
10. Tynnu cymariaethau o bolisi cyfoes Israel â pholisi'r Natsiaid.
11. Dal Iddewon yn gyfrifol ar y cyd am weithredoedd talaith Israel.

Mae Plaid Cymru yn credu bod pawb yn gyfartal waeth beth fo'i hil neu grefydd. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid condemnio pob math o droseddau casineb yn gyfartal.

Nid yw'n wrthsemitaidd i feirniadu Llywodraeth Israel, heb dystiolaeth ychwanegol i awgrymu bwriad gwrthsemitaidd.

Nid yw'n wrthsemitaidd i disgwyl yr un safonau gan Lywodraeth Israel â chan ddemocratiaethau rhyddfrydig eraill, neu i gymryd diddordeb arbennig ym mholisiau neu weithredoedd Llywodraeth Israel, heb dystiolaeth ychwanegol i awgrymu bwriad gwrthsemitaidd.

Mae Plaid Cymru trwy hyn yn mabwysiadu'r diffiniad uchod o wrthsemitiaeth ac mae'n addo brwydro yn erbyn y math niweidiol hwn o hiliaeth.

1.2 Cylch Gorchwyl yr Adolygiad Gwrthsemitiaeth

Cylch gorchwyl

Mae Plaid Cymru'n ymrwymo i fod yn lle diogel ar gyfer Iddewon ac i chwarae ein rhan mewn sicrhau bod Iddewon yn ddiogel yng Nghymru a'r Deyrnas Gyfunol. Cedwir yr ymrwymiad hwn mewn Datganiad Gwrthsemitiaeth a dderbyniwyd gan aelodau'r Blaid ar 29 Chwefror 2020.

Mae Arweinyddiaeth y Blaid yn benderfynol bod Datganiad Gwrthsemitiaeth yn cael ei ymgorffori ym mholisïau, gweithdrefnau, strwythurau a diwylliant y Blaid. I'r perwyl hwn, mae Arweinydd y Blaid wedi comisiynu adolygiad gan Arweinydd Grŵp San Steffan.

1. Gwerthuso polisiau a gweithdrefnau cyfredol sydd â'r nod o wireddu Datganiad Gwrthsemitiaeth Plaid Cymru. Bydd hyn yn cynnwys archwiliad o gwynion hanesyddol yn ymwneud â gwrthsemitiaeth gyda'r amcan o adnabod gwersi i'r dyfodol a gwneud argymhellion priodol.
2. Trwy ymgynghori ag aelodau Plaid Cymru, cynrychiolwyr y gymuned Iddewig a sefydliadau cydraddoldeb hil, adnabod fframwaith ymarfer da i wireddu Datganiad Gwrthsemitiaeth Plaid Cymru yn ei pholisïau, gweithdrefnau, strwythurau a diwylliant.
3. Gwneud argymhellion yn ôl yr angen ynglŷn â hyfforddiant, polisiau a gweithdrefnau'r blaid, gan gynnwys strwythurau disgyblu a phrosesau mewnol i ddelio â chyhuddiadau o wrthsemitiaeth o fewn Plaid Cymru.
4. Ystyried a yw unrhyw faterion a adnabyddir yn ystod yr adolygiad yn berthnasol i feysydd rhagfarn ehangach, gan gynnwys Islamoffobia, hiliaeth a chamwahaniaethu ar sail unrhyw nodwedd arall a amddiffynnir, a gwneud argymhellion mewn perthynas â polisiau, gweithdrefnau a strwythurau'r Blaid ar eu sail.
5. Cyflwyno adroddiad terfynol i Arweinydd y Blaid erbyn wythnos gyntaf Ionawr i'w ystyried a chyflwyno darganfyddiadau gerbron Pwyllgor Gwaith y Blaid cyn gynted ag sy'n bosib.

Bydd argymhellion terfynol yr adroddiad a sylwebaeth esboniadol yn cael eu cyhoeddi.

1.3 Methodoleg yr Adolygiad Gwrthsemitiaeth

Comisiynwyd yr adolygiad gan Arweinydd y Blaid, Adam Price, ddiwedd mis Hydref 2020, ac fe'i cynhaliwyd gan Arweinydd Grŵp Seneddol Plaid Cymru, Liz Saville Roberts AS. Darparwyd yr holl ddogfennau cwynion hanesyddol perthnasol, data cwynion cyffredinol a gweithdrefnau a pholisïau'r Blaid gan y Prif Weithredwr Gareth Clubb, a adawodd y Blaid adeg Nadolig 2020. Darparwyd dogfennau pellach gan y Prif Weithredwr dros dro, Marc Phillips.

Gwahoddwyd cyflwyniadau gan aelodau'r Blaid, gan grwpiau Iddewon a grwpiau hawliau dynol ym mis Tachwedd 2020, ac mae'r holl gyflwyniadau a dderbyniwyd tan fis Ionawr 2021 wedi'u hystyried.

O ystyried bod llawer o'r adolygiad wedi'i gynnal yn ystod cyfyngiadau Covid-19 yng Nghymru, bu'n rhaid cynnal trafodaethau o bell; cyflwynwyd yr holl dystiolaeth arall yn ysgrifenedig.

Gwahoddwyd cyflwyniadau ysgrifenedig, a chynhaliwyd sgysiau, naill ai dros y ffôn neu drwy gynhadledd rithwir, gydag unigolion o'r tu mewn a thu hwnt i'r Blaid, a'r sefydliadau cynrychioliadol canlynol:

- Bwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain
- Ymddiriedolaeth Polisi Gwrthsemitiaeth
- Cyngor Arweinyddiaeth Iddewig

2 Polisiau, deddfwriaeth, a chyddestun perthnasol

2.1 Datganiad Gwrthsemitiaeth Plaid Cymru a diffiniad gweithredol yr IHRA o wrthsemitiaeth ynghyd ag enghreifftiau

Mae diffiniad gweithredol Cynghair Rhyngwladol Cofio'r Holocaust (IHRA)¹ yn cynnwys diffiniad 45 gair, dau gymal enghreifftiol a rhestr o ddarluniau, fel a ganlyn:

Mae gwrthsemitiaeth yn ganfyddiad penodol o Iddewon, y gellir ei fynegi fel casineb tuag at Iddewon. Cyfeirir amlygiadau rhethregol a chorfforol o wrthsemitiaeth tuag at unigolion Iddewig neu unigolion nad ydynt yn Iddewon a/neu eu heiddo, tuag at sefydliadau cymunedol Iddewig a sefydliadau crefyddol.

Gallai amlygiadau o'r math gynnwys targedu gwladwriaeth Israel, a luniwyd fel cyd-fenter Iddewig. Fodd bynnag, ni ellir ystyried bod beirniadaeth o Israel tebyg i feirniadaeth a anelir at unrhyw wlad arall yn wrthsemitaidd. Mae gwrthsemitiaeth yn aml yn cyhuddo Iddewon o gynllwynio i niweidio dynoliaeth, ac fe'i defnyddir yn aml i feio Iddewon am "pam mae pethau'n mynd o chwith." Fe'i mynegir ar lafar, mewn ysgrifennu, ffurfiau gweledol a gweithredoedd, ac mae'n defnyddio stereoteipiau sinistr a nodweddion cymeriad negyddol.

Wrth ystyried y cyd-destun cyffredinol gall enghreifftiau cyfoes o wrthsemitiaeth mewn bywyd cyhoeddus, y cyfryngau, ysgolion, y gweithle, ac yn y maes crefyddol, gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- *Galw am, cynorthwyo, neu gyfiawnhau lladd neu niweidio Iddewon yn enw ideoleg radical neu farn eithafol am grefydd.*
- *Gwneud honiadau celwyddog, dad-ddyneiddiol, niweidiol neu ystrydebol am Iddewon fel y cyfryw neu bŵer cyfunol Iddewon – megis, yn enwedig ond nid yn unig, y myth am gynllwyn Iddewon byd eang neu am Iddewon yn rheoli'r cyfryngau, yr economi, y llywodraeth neu sefydliadau cymdeithasol eraill.*
- *Cyhuddo Iddewon fel pobl o fod yn gyfrifol am gamweddau gwirioneddol neu ddychmygol a gyflawnwyd gan un person neu grŵp Iddewig, neu hyd yn oed am weithredoedd a gyflawnwyd gan bobl nad ydynt yn Iddewon*
- *Gwadu ffaith, cwmpas, mecanweithiau (e.e. siambrau nwy) neu fwriadoldeb hil-laddiad y bobl Iddewig yn nwylo'r Almaen Sosialaidd Genedlaethol a'i chefnogwyr a'i dilynwyr yn ystod yr Ail Ryfel Byd (yr Holocaust).*

¹ <https://www.holocaustremembrance.com/resources/working-definitions-charters/working-definition-antisemitism>

- *Cyhuddo'r Iddewon fel pobl, neu Israel fel gwladwriaeth, o ddyfeisio neu orliwio'r Holocaust.*
- *Cyhuddo dinasyddion Iddewig o fod yn fwy teyrngar i Israel, neu i flaenoriaethau honedig Iddewon yn fyd-eang, nag i fuddiannau eu cenhedloedd eu hunain.*
- *Gwrthod hawl y bobl Iddewig i hunanbenderfynu, e.e., drwy honni bod bodolaeth Gwladwriaeth Israel yn ymdrech hiliol.*
- *Arddel safonau dwbl drwy fynnu gan Israel ymddygiad nad yw'n ddisgwyliedig nac yn ofynnol gan unrhyw genedl ddemocrataidd arall.*
- *Defnyddio symbolau a delweddau sy'n gysylltiedig â gwrthsemitiaeth glasurol (e.e., honiadau o Iddewon yn lladd Iesu neu'r enllib gwaed) i nodweddu Israel neu Israeliaid.*
- *Cymharu polisiau cyfoes Israel i bolisiau'r Natsiaid.*
- *Dal Iddewon ar y cyd yn gyfrifol am weithredoedd gwladwriaeth Israel.*

Bwriedir gweithredu diffiniad a darluniau'r IHRA ar sail consensws ac nid ydynt yn gyfreithiol rwymol: ni ragdybir bod yr enghreifftiau'n ddangosyddion pendant na chynhwysfawr i benderfynu a yw digwyddiad penodol yn wrthsemitaidd, yn hytrach bwriedir iddynt ddarparu dangosydd ynghylch a yw digwyddiad o'r fath yn haeddu ymchwiliad pellach.

Ffurfir Datganiad Gwrthsemitiaeth presennol Plaid Cymru allan o'r diffiniad gweithredol o wrthsemitiaeth a gynhyrchwyd gan Gynghrair Rhyngwladol er Coffau'r Holocaust ynghyd â rhestr o 11 enghraifft a fabwysiadwyd gan gyfarfod llawn yr IHRA yn 2016, ac hefyd dau eglurhad ychwanegol a gynigiwyd gan Bwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Faterion Cartref yn argymhellion ei adroddiad 2016, 'Gwrthsemitiaeth yn y Deyrnas Gyfunol'². Er hynny, nid yw'n cynnwys y ddau gymal darluniadol cyntaf yn niffiniad yr IHRA yn eu cyfanradd.

Ni chrosawyd datganiad y Blaid yn unfrydol adeg ei fabwysiadu, ac roedd un cyflwyniad i'r adolygiad yn cwestiynu a ddylai Plaid Cymru fod wedi ymgysylltu â diffiniad yr IHRA o gwbl.

Mae dau eglurhad y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref yn nodi'r angen am dystiolaeth o fwriad gwrthsemitaidd. Mae'r adolygiad hwn yn cynnig y dylai Plaid Cymru fabwysiadu dull sy'n ceisio sefydlu'n gyntaf a oedd ymddygiad neu rethreg yn wrthsemitaidd. Felly, nid yw canfyddiad o ymddygiad neu rethreg wrthsemitaidd yn dibynnu ar brawf o fwriad, er y bydd graddau'r bwriad yn llywio camau gweithredu neu sancsiynau'n gymesur. Er mwyn rhoi hyn ar waith, dylai Datganiad Gwrthsemitiaeth Plaid Cymru fabwysiadu diffiniad yr IHRA a'r holl gymalau a darluniau darluniadol heb y ddau eglurhad gan y Pwyllgor Dethol, gan nad yw'r rhain yn gyson a'r argymhellion ynghylch statws bwriad.

² <https://publications.parliament.uk/pa/cm201617/cmselect/cmhaff/136/136.pdf>

Mae cyflwyniad Bwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain i'r adolygiad hwn yn nodi y bu rhai gwrthwynebiadau i enghreifftiau diffiniad yr IHRA sy'n cyfeirio at Israel. Credant fod yr enghreifftiau hyn yn ymwneud â'r profiad o wrthsemitiaeth yn y DU yn y degawd diwethaf:

*'Bu'n batrwm sylfaenol o fewn gwrthsemitiaeth y DU i bardduo Israel fel un sy'n ddrwg yn ei hanfod - yn hytrach nag fel gwladwriaeth sydd â pholisiau y gallai rhywun anghytuno â hwy - ac yna clymu Iddewon i'r Israel hwnnw er mwyn gwthio Iddewon allan o fannau cyhoeddus a mannau a rennir.'*³

Mae'r cyflwyniad yn cynnig bod Iddewon i bob pwrpas yn wynebu 'llw teyrngarwch' gwleidyddol ar ffurf prawf 'gwrth-Israel' mewn rhai arenâu gwleidyddol, lle mae'n ofynnol iddynt naill ai i fynegi ddrwgdeimlad tuag at Israel neu wynebu gwrthsemitiaeth bellach.

*'Hyd yn oed pe bai rhywun yn disgwyl i Iddewon basio'r prawf hwn allan o gyfleustra, yn y sefyllfa bresennol lle mae mwy na 40% o Iddewon y byd yn byw yn Israel, ac Israel yw ffynhonell diwylliant a hunaniaeth Iddewig i'r rhan fwyaf o Iddewon, mae hwn yn brawf amhosibl i lawer o Iddewon ei basio. I lawer o Iddewon Prydeinig, mae gofyn a ydynt yn cytuno mai 'Natsiaidd' yw byddin (gorfodol) Israel mewn rhyw ffordd gyfystyr a gofyn iddynt a yw eu cefnder, eu nith neu eu nai yn Natsiaid. Os gofynnir iddynt ymwrthod a chynnyrch diwylliannol Israel - neu hyd yn oed cynnyrch diwylliannol a gefnogir gan Israel, yna gofynnir iddynt ymwrthod a mwyafrif llethol diwylliant Hebraeg. Mae'n bwysig deall bod adfywiad yr iaith Hebraeg yn ystod y 200 mlynedd diwethaf yr un mor bwysig i Iddewon ag y mae adfywiad y Gymraeg i Gymru.'*⁴

Mae tystiolaeth Bwrdd y Dirprwyon yn cyfeirio'n benodol at yr enghraifft yn niffiniad yr IHRA o Defnyddio'r symbolau a delweddau sy'n gysylltiedig â gwrthsemitiaeth glasurol (ee honiadau o Iddewon yn lladd Iesu neu'r enllib gwaed) i nodweddu Israel neu Israeliaid. Mae hwn yn bwynt arwyddocaol a allai fod yn gymhleth i aelodau Plaid Cymru a phobl wleidyddol weithgar eraill o draddodiad nad yw'n Iddewig. Er bod perygl o or-gyffredinoli, mae'n werth nodi bod portreadu tywallt gwaed yn ddelwedd a dderbynnir yn gyffredinol er cyfleu atgasedd at weithred dreisgar: gellir rhagweld y bydd pobl o gefndir nad ydynt yn Iddewon (a rhai Iddewon hefyd o bosibl) yn dehongli delweddau o'r math fel symbolaeth gyfiawn. Ond ni ellir gwadu chwaith fod yr ystrydeb enllib gwaed wedi cael ei ddefnyddio ers canrifoedd gyda bwriad gwrthsemitaidd bwriadol. Mae'r rhain yn ddau ddull diwylliannol gwahanol: mae un yn derbyn portreadu gwaed fel sylw teg, mae'r llall yn byw yng nghysgod digwyddiadau hanesyddol a chysylltiad yr enllib gwaed gyda phogromau hil-laddiad. O dan amgylchiadau o'r math, mae angen i bobl sy'n mentro i'r arena wleidyddol fod yn effro i oblygiadau'r symbolaeth y maent yn dewis amlygu. Gall anwybodaeth o wrthdaro diwylliannol posibl fod yn ddealladwy y tro cyntaf, ond ni all fod yn esgus parhaus.

³ Cyflwyniad i Adolygiad Gwrthsemitiaeth Plaid Cymru, Bwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain

⁴ Ditto

2.2 Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae gan y Blaid gyfrifoldebau fel ‘cymdeithas’ o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010⁵. At ddibenion y Ddeddf, mae cymdeithas yn sefydliad sydd ag o leiaf 25 o aelodau ac sy’n rheoli mynediad i aelodaeth trwy reolau a phrosesau dethol. Mae’r rhan fwyaf o bleidiau gwleidyddol y DU yn gymdeithasau yn yr ystyr hwn. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i gymdeithas wahaniaethu neu erlid ei haelodau, darpar-aelodau, gwsteion a chymdeithion ar sail hil a chrefydd. Gall gwahaniaethu fod yn ‘uniongyrchol’ neu’n ‘anuniongyrchol’. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn ei gwneud yn anghyfreithlon i gymdeithas aflonyddu ar yr un grwpiau o bobl ar sail hil.

Cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol *Ymchwiliad i wrthsemitiaeth yn y Blaid Lafur*⁶ yn Hydref 2020 mewn ymateb i gwyn gan Mudiad Llafur Iddewig a’r grwp Iddewig, Ymgyrch yn erbyn Gwrthsemitiaeth. Daeth y Comisiwn i’r casgliad bod y Blaid Lafur wedi torri Deddf Cydraddoldeb 2010 drwy aflonyddu’n anghyfreithlon drwy weithredoedd ei hasiantau. Dywed yr ymchwiliad:

‘Mae ymddygiad gwrthsemitaidd gan aelodau’r Blaid Lafur yn aflonyddu anghyfreithlon o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 pan:

- *Mae’n ymddygiad annymunol sy’n gysylltiedig ag ethnigrwydd Iddewig*
- *Mae ganddo’r diben neu’r effaith o danseilio urddas un neu fwy o aelodau’r Blaid Lafur, neu’n creu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, diraddiol, cywilyddus neu sarhaus iddynt, ac*
- *Y Blaid Lafur sy’n gyfrifol amdani, oherwydd y person neu’r bobl sy’n cyflawni’r ymddygiad gwrthsemitaidd yw ei chyflogeion sy’n gweithredu yn rhinwedd eu cyflogaeth, neu’n asiantau sy’n gweithredu yn rhinwedd eu swyddogaethau awdurdodedig.’*

Mae Atodiad 3 Yr Ymchwiliad i Wrthsemitiaeth yn y Blaid Lafur yn esbonio cyfrifoldeb cyfreithiol y Blaid Lafur mewn perthynas ag ymddygiad ei hasiantau ac effaith diffiniad yr IHRA o wrthsemitiaeth ar ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae’r Blaid yn gyfreithiol gyfrifol am ymddygiad anghyfreithlon a gyflawnir gan ei hasiantau wrth weithredu swyddogaethau neu ddyletswyddau a awdurdodwyd gan y Blaid.

Dylai Plaid Cymru fod yn effro i’n cyfrifoldebau mewn perthynas â rôl asiantau a Deddf Cydraddoldeb 2010.

⁵ <https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/what-equality-law-means-your-association-club-or-society>

⁶ <https://www.equalityhumanrights.com/en/inquiries-and-investigations/investigation-labour-party>

2.3 Gwrthsemitiaeth y Chwith

I lawer o bobl sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth y chwith, ystyrir bod gwrthsemitiaeth yn hiliaeth a amlygir yn bennaf gan gefnogwyr mudiadau asgell-dde, yn enwedig neo-natsiaeth. Er bod aelodau Plaid Cymru yn debygol iawn o gael eu brawychu gan hanes gweithredoedd hil-laddiad y Natsïaid yn erbyn Iddewon a grwpiau lleiafrifol eraill yn y 1930au a'r 40au fel y'u portreadir mewn cyfeiriadau addysgol a diwylliannol at yr Holocost (hynny yw cynnwys cwricwlwm ysgol, ffilmiau fel 'Schindler's List', nofelau Primo Levi a dyddiadur Anne Frank, ac ati), mae'n bosibl bod ymwybyddiaeth ehangach o faterion gwrthsemitiaeth yn llai cyfarwydd, yn enwedig mewn perthynas â sut mae rhai pobl sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth adain chwith mewn perygl o grwydro, efallai'n ddiarwybod, mewn i ymddygiad hiliol onibai ein bod yn ddigon effro i'w draddodiad gwrthsemitaidd penodol ei hun a phwyntiau cyfeirio cyffredin. Mae Adroddiad Digwyddiadau Gwrthsemitiaeth yr Ymddirielolaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer 2020⁷ yn cofnodi 1,668 o ddigwyddiadau o wrthsemitiaeth. Dywed yr adroddiad bod cymhelliant asgell-dde eithafol yn amlwg mewn 105 o ddigwyddiadau, a bod 65 o ddigwyddiadau yn amlygu trafodaeth ar y chwith eithafol.

Mae tystiolaeth Bwrdd y Dirprwyon yn cynnig sylwebaeth ddiddorol ar gefndir ffynonellau gwrthsemitaidd adain chwith, gan gyfeirio at yr hen Undeb Sofietaidd fel tarddwr terminoleg a delweddau gwrthsemitaidd. Mae'n werth nodi bod difriaeth cynllwyn byd-eang y testun ffug 'Protocols of the Elders of Zion' wedi'i gyhoeddi gyntaf yn Rwsia yn 1903, a bod gan y wladwriaeth cyn 1917 draddodiad sefydledig o oddef ac annog pogromau fel modd o reolaeth gymdeithasol a gwleidyddol. Mae'n werth cofio hefyd bod terfysgoedd gwrthsemitaidd (h.y. pogromau) wedi digwydd ledled Ewrop, gan gynnwys terfysg Tredegar yn 1911, sef cefndir y ffilm, Solomon & Gaenor.

Mae'r cyflwyniad yn pwysleisio sut y gall y tybiaethau hiliol cynhenid sy'n sail i weithredoedd gwrthsemitaidd gael eu cuddio trwy ystryw mewn terminoleg, tra bod profiad y bobl Iddewig yn aros yr un fath.

Mae llawer o'r gwrthsemitiaeth a welwn heddiw, yn anffodus, yn adleisio gweithredoedd gwrthsemitaidd a phropaganda o'r Undeb Sofietaidd a'i gynghreiriaid yn ystod yr 20fed ganrif, a fwriadwyd i ymleiddio Iddewon tra'n caniatáu'r gallu i fod yn gredadwy tra'n gwadu bwriad gwrthsemitaidd. Roedd y gallu i wadu'n gredadwy wedi'i seilio ar ddwy ddadl. Yn gyntaf, trosglwyddwyd y naratif gwrthsemitaidd o 'Iddewon' i 'Seionydd' neu 'Israel'. Yn ail, dadleuwyd bod ymrwymiad rhethregol ehangach yr Undeb Sofietaidd i wrth-hiliaeth yn dangos na allai ei sefydliadau fod yn wrthsemitaidd.

Ystyrir mai'r enghraifft gyntaf o'r mecanwaith hwn oedd achos sioe Cadeirydd Plaid Iddewig Gwlad Czech, Rudolf Slansky yn 1952, a gyhuddwyd, mewn arddull gwrthsemitaidd clasurol, o gynllwyn gwleidyddol, gyda'r dyfais newydd nad oedd

⁷ <https://cst.org.uk/data/file/7/2/Incidents%20Report%202020.1615559608.pdf> (p8)

yn gwneud hynny fel Iddew ond fel Seionydd. Cliriwyd miloedd o Iddewon Gwlad Pwyl allan o'u cyflogaeth yng Ngwlad Pwyl yn 1968 ar ôl cael eu cyhuddo o fod yn gyfrifol am brotestiadau'r myfyrwyr y flwyddyn honno, nid fel Iddewon ond fel Seionyddion. Yn y 1980au, cynhyrchodd yr USSR bropaganda, a ddosbarthwyd ledled y byd, sy'n cyfateb i Seioniaeth gyda Natsïaeth, fel dull o ormes gwleidyddol ar ei dinasyddion Iddewig. Cafodd y trosglwyddiad hwn o naratif gwrthsemitaidd o 'Iddewon' i 'Seionydd' neu 'Israel' ei ledaenu ledled y byd drwy gynghreiriaid y gyfundrefn yn y Gorllewin a'r hyn y cyfeiriwyd atynt y pryd hynny fel mudiadau'r trydydd byd. Yn hollbwysig, ymatebodd cyfundrefnau'r Bloc Sofietaidd i gwynion bod y digwyddiadau hyn yn wrthsemitaidd, drwy ddadlau bod yr honiadau hyn yn ymdrech i bardduo er mwyn 'cuddio' gormes Israel a'r Seionyddion o Balestiniaid, neu hyd yn oed er mwyn atal sosialaeth trwy'r byd. Er bod yr USSR a'i gynghreiriaid wedi dod i ben ers amser, dyma elfen o'i waddol sydd dal ar led, i ryw raddau, ar y Chwith. Mae'n wir ar yr un pryd fod y naratifau hyn yn parhau i gael yr effaith a fwriadwyd yn wreiddiol, sef i ymyleiddio a galluogi ymyleiddio Iddewon, er nad yw'r sawl sy'n defnyddio rhethreg neu weithredoedd o'r fath o reidrwydd yn bwriadu bod yn wrthsemitaidd.⁸

Mae cyflwyniad Bwrdd y Dirprwyon hefyd yn cynnig y gall pobl sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth adain chwith gydnabod gwrthsemitiaeth pan fydd yn effeithio ar bobl sy'n gysylltiedig â gwleidyddiaeth y maent yn uniaethu â hi, ond yn gwadu gwrthsemitiaeth pan fydd yn berthnasol i eraill:

Byddai llawer ar y Chwith yn adnabod cartŵn o George Soros gydag ystradebau gwrthsemitaidd - dwylo gwaedlyd, gafael am arian, rheoli eraill - fel gwrthsemitaidd, tra'n methu cydnabod y gwrthsemitiaeth yn yr un ystradebau mewn cartŵn o Binyamin Netanyahu. Mae angen i Blaid Cymru ddangos ei bod yn deall y gall gwrthsemitiaeth bodoli ar y Chwith, a bod ganddi berthynas benodol yng nghylch y drafodaeth o gwmpas Israel.⁹

Mae pryderon ynghylch sut i drafod gwrthdaro Israel/Palestiniaid mewn modd priodol. Mae'n amlwg bod angen i'r Blaid gynnal trafodaeth fewnol bellach ar sut i gymryd rhan yn y drafodaeth hon heb ymddygiad neu rethreg hiliol, ac i fod yn effro i'r tebygolrwydd y daw cwynion pellach. Casglwyd awgrymiadau ynghylch y ffordd orau o ymdrin â hyn mewn tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad hwn, a chyfeiriodd Danny Stone o'r Ymddiriedolaeth Polisi Gwrthsemitiaeth at adnoddau hyfforddi'r TUC¹⁰.

⁸ Cyflwyniad i Adolygiad Gwrthsemitiaeth Plaid Cymru, Bwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain. Am ddadleuon pellach ar y testun hwn, gweler [Izabella Tabarovsky a gyhoeddir gan Fathom Magazine](#).

⁹ Ditto

¹⁰ <https://learning.elucidat.com/course/5daed7c9acd4e-5f29224dd8003>

2.4 Rôl cyfryngau cymdeithasol mewn dadl wleidyddol

Mae angen dealltwriaeth gwell trwy'r Blaid o natur barhaol bosibl yr holl ddeunydd a bostir ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol drwy gydol gyrfa wleidyddol unigolyn, a chyn hynny. Mae sylwadau a allai wedi'i llefaru yn y gorffennol, gan basio heb ei gofnodi, yn awr yn fwy tebygol o gael ei fynegiant ar lwyfan cyfryngau cymdeithasol yn hytrach nag wyneb yn wyneb, gan arwain at record digidol: felly mae'n haws casglu tystiolaeth ar gyfer cwynion ac mae'r tebygolrwydd o gwynion yn fwy.

Mae natur y cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol yn golygu bod mwy o bobl yn agored i raddau mwy nag erioed o'r blaen i ffynonellau helaeth y mae eu cefndir yn anhryloyw ac y gallai eu diben fod yn fwriadol aflonyddgar. Gall algorithmau cyfryngau cymdeithasol gyfeirio deunydd dro ar ôl tro at lif newyddion pobl mewn modd sy'n atgyfnerthiad hunangyflawnol o safbwyntiau yn hytrach nag annogaeth at werthuso beirniadol. Yn fyr, mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi'u cynllunio'n strwythurol er hwyluso cred mewn damcaniaethau cynllwyn ffug, ac i annog meddylfryd cynllwyngar, gan gynnwys y duedd i dderbyn cynllwynion gwrthsemitaidd yn ddi-gwestiwn.

Mae diwylliant ar lwyfannau fel Twitter a Facebook o rannu a hoffi deunydd er mwyn dangos ymlyniad â grwpiau penodol, gan gynnwys teyrngarwch gwleidyddol cysylltiedig penodol. Mae llawer o bobl heb fabwysiadu dulliau beirniadol hanfodol i weithredoedd o'r math eto, gan dybio y bydd cynnwys a bostiwyd gan ffrind neu gan grwp a gymeradwyir gan gydnabod yn wleidyddol briodol drwy gysylltiad. Mae'n amlwg bod hon yn dod yn strategaeth sy'n gynyddol beryglus wrth i unigolion ddod yn fwy gwleidyddol weithgar, yn enwedig gael mynediad i fod yn gynrychiolydd plaid.

3 Cwynion hanesyddol yn ymwneud â gwrthsemitiaeth

Mae'r Adolygiad Gwrthsemitiaeth wedi ystyried yr holl gwynion sy'n gysylltiedig â gwrthsemitiaeth sydd wedi'u cofnodi yng ngweithdrefnau cwyno'r Blaid yn ystod y pum mlynedd diwethaf ac y mae eu hymchwiliadau wedi'u cwblhau gan y Pwyllgor Aelodaeth, Disgyblu a Safonau.

Dywedodd cyn Brif Weithredwr Plaid Cymru, Gareth Clubb, nad oedd y Blaid yn asesu a ddylid trin cwyn yn ffurfiol ai peidio: mae pob cwyn yn cael ei chyfeirio at y Pwyllgor ADS.

Pwysleisiodd Mr Clubb na ellid yn gyfreithlon ailagor cwynion hanesyddol, gan eu bod wedi cael eu hystyried o dan y Rheolau Sefydlog a oedd yn gyfredol ar y pryd. Disgrifiodd y Rheolau Sefydlog fel y cytundeb contractiol rhwng y Blaid a'i haelodaeth, ac y byddai gweithredu *ultra vires* yn gyfystyr â thorri contract. Pwysleisiwyd y pwynt hwn i'r Bwrdd Dirprwyon, sy'n *'deall nad ellir clywed yr un achos ddwywaith heb dystiolaeth newydd'*¹¹. Serch hynny, awgrymasant y byddai ymgysylltu pellach â chynrychiolwyr cymunedol Iddewig o fudd wrth symud ymlaen.

Ystyriodd yr Adolygiad Gwrthsemitiaeth yr holl wrandawiadau disgyblu ers 2016. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â gwrthsemitiaeth cyn 2019. Arweiniodd cwynion gwrthsemitiaeth at saith gwrandawriad disgyblu rhwng 2019 ac Ionawr 2021: mae'r rhain yn gyfystyr ag 8.2% o gyfanswm nifer y cwynion a gwblhawyd a dderbyniwyd dros y pum mlynedd diwethaf.

¹¹ Cyflwyniad i Adolygiad Gwrthsemitiaeth Plaid Cymru, Bwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain

3.1 Sylwadau ar weithdrefnau cwyno fel yr adlewyrchir mewn cwynion hanesyddol sy'n ymwneud â gwrthsemitiaeth

Mae angen i'r ffordd y mae'r Blaid yn ymdrin â chwynion gwrthsemitiaeth yn benodol newid fel mater o frys. Dylai hefyd ymdrin â'r angen i newid y modd yr ymdrinnir â chwynion sy'n ymwneud â nodweddion gwarchoddedig yn gyffredinol gyda'r un pwyslais.

Ymddengys bod rhagdybiaeth sylfaenol bod gan aelodau'r panel cwynion sgiliau digonol i ddod i benderfyniad heb gyngor nac hyfforddiant pellach ar faterion gwleidyddol sensitif a allai fod y tu hwnt i'w profiad personol. Disgwylir i aelodau gwirfoddol ein Pwyllgor ADS weithredu fel ynadon, ond heb gymorth cyngor clerics llys. Maent yn ymgymryd â'r dasg ddi-ddiolch o wasanaethu ar baneli gwrandawriad am fod buddiannau'r Blaid yn agos at eu calonnau. Mae hyn yn glodwiw, ond mae'r Blaid yn wynebu'r risg o ragdybio bod dehongliad unigolion o fuddiannau gorau'r Blaid bob amser yn gyson, yn un a golwg hirdymor, ac yn unol ag amcanion cyfansoddiadol datganedig.

Gan gymryd golwg hirach, mae'r Blaid mewn perygl o achosi mwy o ddifrod i'n buddiannau drwy barhau i weithredu mewn ffordd sy'n anaddas i blaid sydd yn arddel gwerthoedd craidd datganedig: *"I adeiladu cymuned genedlaethol yn seiliedig ar ddinasyddiaeth gyfartal, parch at wahanol draddodiadau a diwylliannau a gwerth cyfartal pob unigolyn, beth bynnag fo'u hil, cenedligrwydd, rhyw, lliw, cred, rhywioldeb, oedran, gallu neu gefndir cymdeithasol"*.

Ystyrir y byddai mwyafrif llethol aelodau'r Blaid yn ymfalchïo mewn cymryd safiad yn erbyn hiliaeth ac wrth fynegi cefnogaeth wleidyddol weithredol i leiafrifoedd. Mae mwyafrif helaeth aelodau'r Blaid hefyd o ethnigrwydd gwyn Cymreig/DU ac o gefndir Cristnogol neu anghrefyddol. Yn hyn o beth, gallai llawer o fewn y Blaid feddu ar ragfarn diarwybod wrth ymdrin â materion sy'n ymwneud â hiliaeth, gwrthsemitiaeth ac Islamoffobia.

Dylai'r Blaid fabwysiadu Egwyddor Macpherson wrth fynd i'r afael â chwynion sy'n ymwneud â digwyddiadau y tybir eu bod yn hiliol gan yr achwynydd neu bobl berthnasol eraill. Mae Egwyddor Macpherson yn mynnu bod cwynion sy'n ymwneud â hiliaeth yn cael eu trin fel cwynion dilys, er ei bod yn ddilys i wrandawriad ymchwilio ddod i gasgliad ar ôl proses priodol nad oedd y digwyddiad yn hiliol.¹²

Trafodir rôl bwriad gwrthsemitaidd yn fanwl yng nghyflwyniad y Bwrdd Dirprwyon, lle maent yn mynegi pryder *'y gellir disytyru rhethreg neu weithred, a all gael effaith negyddol posibl ar Iddewon fod wedi ... oherwydd anallu i sefydlu bwriad gwrthsemitaidd.'*¹³ Tra bod bwriad yn bwysig, ni ddylai fod yn ffactor anhepgorol wrth benderfynu a yw rhethreg neu ymddygiad yn wrthsemitaidd; yn hytrach, dylai bodolaeth bwriad ddylanwadu ar y dewis o weithredoedd neu sancsiynau a all codi ar ôl canfyddiad o wrthsemitiaeth.

¹² Gweler adroddiad 1999 yr Arglwydd Macpherson i farwolaeth Stephen Lawrence fel y crynhoir yma <https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cdp-2019-0052/>

¹³ Cyflwyniad i Adolygiad Gwrthsemitiaeth Plaid Cymru, Bwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain

Yn ail, mae angen mynd i'r afael â chwestiynau ynghylch sut a pha Reolau Sefydlog sy'n cael eu defnyddio yn y drefn gwyno: a oes angen naill ai cymalau ychwanegol yn y Rheolau Sefydlog neu adolygiad o a yw cymalau mwyaf perthnasol y Rheolau Sefydlog yn cael eu gweithredu mewn perthynas â chwynion gwrthsemitiaeth, neu'r ddau?

Mae'n amlwg bod RhS 3.1 ix - *'ymddygiad sy'n gyfystyr â gwahaniaethu tuag at unrhyw berson ar sail y nodweddion canlynol: oedran, rhyw, anabledd, hil, ethnigrwydd, cenedligrwydd, crefydd, cred, cyfeiriadaeth rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd, statws mamolaeth neu briodasol'* - yn anaddas i fynd i'r afael â chwynion am ddatganiadau gwahaniaethol yn erbyn grwpiau o bobl yn hytrach nag unigolion penodol. Mae Argymhelliad 1.3 yn cynnig ychwanegu'r geiriau *'ymddygiad sy'n gyfystyr â gwahaniaethu tuag at unrhyw berson, pobl neu grwpiau o bobl ar y sail ...'*.

Mynegodd ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol farn ar effeithiolrwydd polisau cwynion y Blaid Lafur drwy asesu i ba raddau a gyda pha lwyddiant wnaethon nhw gynnal eu gweithdrefnau eu hunain. Mae gwersi ychwanegol i'w dysgu o ymchwiliad y Comisiwn i'r Blaid Lafur, yn enwedig mewn perthynas â Deddf Cydraddoldeb 2010 a chyfrifoldeb y Blaid mewn perthynas ag ymddygiad unigolion a ddiffinnir fel asiantau.

Yn drydydd, er i'r Blaid fabwysiadu ein Datganiad Gwrthsemitiaeth ym mis Chwefror 2020, ni chyfeirir digon ato yng nghofnodion paneli gwrandawriadau disgyblaeth.

Yn olaf, cyfeiriodd cyflwyniad y Bwrdd Dirprwyon at dri chanlyniad posibl a allai godi yn dilyn yr hyn a ddisgrifiwyd ganddynt fel diffyg *'camau disgyblu priodol'* mewn perthynas â chwynion hanesyddol:

1. *Y neges y mae cosb ysgafn yn anfon at aelodau eraill Plaid Cymru a'r rhai sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth Cymru ynglyn â'r hyn sy'n dderbyniol.*
2. *Bydd gwrthsemitiaeth yn tyfu o fewn Plaid Cymru. Elfen bwysig o wrthsemitiaeth yw cred mewn cynllwyn. Felly mae ganddo'r gallu i dyfu'n eithriadol, gan fod meddylfryd cynllwyngar yn cau allan ffeithiau, a gall fod yn gysur i'r rhai sy'n rhan ohono, gan ei fod yn darparu fframwaith gor-symbl i ddeall byd cymhleth ac anodd.*
3. *Y gallai unigolyn sydd wedi elwa o'r gosb ysgafn barhau â'i ymddygiad.¹⁴*

¹⁴ Cyflwyniad i Adolygiad Gwrthsemitiaeth Plaid Cymru, Bwrdd Dirprwyon Iddewon Prydain

4 Argymhellion

4.1 Cymunedau Iddewig ac ymddiriedaeth ym mhroses cwynion Plaid Cymru

Mynegwyd o leiaf elfen o ddrwgdybiaeth yn nhrefn cwyno Plaid Cymru gan yr holl gynrychiolwyr Iddewig a gyfrannodd i'r Adolygiad. Yn gyffredinol, maent yn ystyried bod prosesau'r Blaid yn dda eu bwriad ond yn annigonol o ran cadernid ac yn ddiffygiol o ran annibyniaeth. Maent yn ystyried bod y Blaid yn blaenoriaethu buddiannau mewnol uwchlaw gweithredu gwerthoedd a arddelwyd yn gyhoeddus.

Argymhellion ar gyfer y Broses Gwyno	
Argymhelliad 1.1	<p>Dylai'r Blaid fabwysiadu fel ei Datganiad Gwrthsemitiaeth eiriad diffiniad yr IHRA a'i ddarluniadau'n llawn.</p> <p>Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau eglurder mewn perthynas ag Argymhelliad 1.8 isod ynglŷn â'r angen i ystyried a oedd ymddygiad neu rethreg yn wrthsemitaidd ac a oedd bwriad i ymddwyn fel hyn.</p> <p>Nid yw cymalau'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref yn gyson ag Argymhelliad 1.8 gan eu bod yn nodi'r angen am dystiolaeth ychwanegol o fwriad gwrthsemitaidd.</p> <p>Drwy gynnwys y cymal ychwanegol o ddarluniau yn niffiniad yr IHRA, mae'n bosibl nodi sut y gellir anelu beirniadaeth at Israel mewn ffordd nad yw'n wrthsemitaidd.</p>
Argymhelliad 1.2	<p>Dylai Datganiad Gwrthsemitiaeth y Blaid fod ar gael yn rhwydd ar adran gyhoeddus gwefan y Blaid.</p>

<p>Argymhelliad 1.3</p>	<p>Dylid cyfeirio at y Datganiad Gwrthsemitiaeth yn ein Rheolau Sefydlog, lle y dylid cyfeirio hefyd at ddatganiad Islamoffobia mabwysiedig y Blaid ac unrhyw ddatganiadau eraill sy'n ymwneud â nodweddion gwarchoddedig fel y bo'n berthnasol.</p> <p>Cynigir y bydd cynnwys y geiriau 'neu bobl' yn Rheol Sefydlog 3.1 ix, fel y dangosir isod, yn caniatáu i egwyddorion y Datganiad gael eu rhoi ar waith. Byddai'r geiriad hwn hefyd yn berthnasol i fynegiant o gasineb a gyfeirir at bob un o'r nodweddion gwarchoddedig.</p> <p>Geiriad newydd arfaethedig ar gyfer 3.1 ix: <i>'Ymddygiad sy'n gyfystyr â gwahaniaethu tuag at unrhyw berson, POBL NEU GRWPIAU O BOBL ar sail unrhyw un o'r nodweddion canlynol: oedran, rhyw, anabled, hil, ethnigrwydd, cenedligrwydd, crefydd, cred, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd, statws mamolaeth neu briodasol.'</i></p> <p>Dylai'r Blaid geisio cyngor cyfreithiol ar y ffordd orau o ymgorffori'r Datganiad Gwrthsemitiaeth yn y Rheolau Sefydlog os bernir bod y geiriad hwn yn agored i'w herio.</p> <p>Bydd yr argymhelliad hwn yn gofyn am Reol Sefydlog newydd neu eiriad newydd o'r Rheol Sefydlog.</p>
<p>Argymhelliad 1.4</p>	<p>Dylai'r Blaid geisio cyngor cyfreithiol mewn perthynas â Deddf Cydraddoldeb 2010 fel y mae'n berthnasol i'n Gweithdrefn Gwyno yn gyffredinol, yn enwedig o ran pwy a ddiffinnir fel 'asiant' o dan y Ddeddf, a pha gamau y dylai'r Blaid eu cymryd o ran gweithdrefn a hyfforddiant.</p>
<p>Argymhelliad 1.5</p>	<p>Dylai Paneli Gwrandawiadau gomisiynu cyngor arbenigol annibynnol mewn perthynas â phob cwyn sy'n gysylltiedig â gwrthsemitiaeth; mae'r cyngor hwn i'w gofnodi'n llawn yng nghofnodion y Paneli Gwrandawiad. Dylid ystyried materion a godir mewn cyngor arbenigol a'r angen i barhau i gomisiynu cyngor yn y dyfodol mewn adolygiadau yn unol ag Argymhelliad 6.2.</p>
<p>Argymhelliad 1.6</p>	<p>Dylid rhoi digon o rybudd i aelodau sy'n destun ymchwiliadau disgyblu ynghylch pa Reol(au) Sefydlog sy'n cael eu hystyried mewn perthynas â'r gŵyn yn eu herbyn.</p> <p>Bydd yr argymhelliad hwn yn gofyn am Reol Sefydlog newydd.</p>

<p>Argymhelliad 1.7</p>	<p>Dylai cofnodion y Panel Gwrandawriad gofnodi pa Reolau Sefydlog a ystyriwyd mewn perthynas â chwynion gwrthsemitiaeth, a beth oedd eu penderfyniadau yn unol â phob Rheol Sefydlog, gyda sail resymegol.</p> <p>Bydd yr argymhelliad hwn yn gofyn am Reol Sefydlog newydd.</p>
<p>Argymhelliad 1.8</p>	<p>Dylai pob aelod o'r Pwyllgor ADS sy'n cyfrannu at wrandawiadau gwrthsemitiaeth fod wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant gwrthsemitiaeth cyn ymgymryd ag unrhyw baneli gwrandawriad pellach.</p> <p>Dylid ailadrodd dealltwriaeth o Egwyddor Macpherson ym mhob cwyn sy'n ymwneud â hiliaeth.</p> <p>Dylai aelodau'r panel ymchwilio i weld a yw ymddygiad neu rethreg yn wrthsemitaidd ac hefyd a oedd bwriad i gymryd rhan mewn ymddygiad o'r fath gan adlewyrchu hyn yn eu cofnodion a'u canfyddiadau. Nid yw canfyddiad o ymddygiad gwrthsemitaidd yn dibynnu ar brawf o fwriad, er y bydd graddau'r bwriad yn llywio camau/sancsiynau cymesur.</p> <p>Argymhellir hyfforddiant ar ragfarn diarwybod i bawb sy'n ymwneud â'r broses gwyno.</p> <p>Dylid ystyried nodi nifer o aelodau'r pwyllgor i arbenigo mewn materion gwrthsemitiaeth yn 2021, er na ddylai hyn ddisodli Argymhelliad 1.5.</p>
<p>Argymhelliad 1.9</p>	<p>Dylai'r Pwyllgor ADS neu gorff arall o fewn y Plaid lunio rhestr enghreifftiol o gamau gweithredu a/neu sancsiynau gofynnol i'w gweithredu mewn achosion o ymddygiad gwrthsemitaidd neu ymddygiad neu fynegiant casineb.</p> <p>Bydd cyfeiriad at y rhestr enghreifftiol o gamau gweithredu a/neu sancsiynau gofynnol ym mhob proses disgyblu Plaid/Grŵp sy'n ymwneud â hiliaeth, gwrthsemitiaeth a mynegiant o gasineb.</p> <p>Dylai camau gweithredu a/neu sancsiynau gofynnol o'r fath fod yn gymesur er adlewyrchu graddau'r bwriad, ail-adrodd ymddygiad a difrifoldeb.</p>

	<p>Fodd bynnag, dylid nodi'r rhain fel camau gweithredu a/neu sancsiynau gofynnol ac nid fel argymhellion dewisol gan Baneli Gwrandawriad.</p> <p>Bydd yr argymhelliad hwn yn gofyn am Reol Sefydlog newydd neu welliant i Reol Sefydlog sy'n bodoli eisoes.</p>
Argymhelliad 1.10	<p>Dylid rhoi gwybod i bob achwynydd am gynnydd eu cwyn, a hefyd am ei chanlyniad. Dylid cadw eu hymatebion (os o gwbl) ar y ffeil gwyno (oni bai bod hyn yn gwrth-ddweud dymuniadau'r achwynydd).</p>
Argymhelliad 1.11	<p>Ar ddiwedd y cyfnod dylai'r Pwyllgor ADS gynnal adolygiad dienw o sut ymdriniwyd â phob cwyn gwrthsemitiaeth yn y 12 mis ar ôl mabwysiadu'r Adolygiad Gwrthsemitiaeth, gan werthuso sut yr ymdriniwyd â hwy o ran cysondeb ac ymlyniant at y Rheolau Sefydlog.</p> <p>Dylid trafod yr adolygiad hwn gyda chynrychiolwyr cyrff Iddewig yng Nghymru a'r DU, ynghyd ag argymhellion ar gyfer unrhyw newidiadau gweithdrefnol yn y dyfodol i'w cytuno gyda'r cynrychiolwyr hynny.</p> <p>Bydd y Blaid yn trafod yr argymhellion hyn ac yn penderfynu a ddylid eu gweithredu yn unol â'r gweithdrefnau arferol.</p> <p>Yn dilyn cyfarfod 2021, dylid trafod a ddylid ailadrodd y broses hon yn flynyddol yn y dyfodol.</p>
Argymhelliad 1.12	<p>Dylai'r Blaid gynnal gwerthusiad 360 gradd (er mwyn cynnwys yr holl randdeiliaid sy'n ymwneud â'r broses neu yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y broses) o sut yr ymdrinnir â phob cwyn o ran eglurder, hygyrchedd, cysondeb a chyfathrebu â'r person neu'r bobl sy'n gwneud y gŵyn neu'r honiad a'r person y gwnaed y gŵyn/cwynion a/neu'r honiad(au) yn ei erbyn.</p> <p>Dylai'r gwerthusiad hwn ystyried goblygiadau ehangach Deddf Cydraddoldeb 2010 i bleidiau gwleidyddol a'u hasiantau yn dilyn Ymchwiliad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i Wrthsemitiaeth yn y Blaid Lafur o ran cwynion sy'n deillio o nodweddion gwarchoddedig.</p>

4.2 Cyfryngau cymdeithasol: protocol cyfathrebu

Deilliodd yr holl gwynion a ystyriwyd yn yr adolygiad hwn o gynnwys a osodwyd yn wirfoddol gan gynrychiolwyr y Blaid ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol; mewn rhai achosion, roedd hyn yn cynnwys testun gwreiddiol, mewn eraill roedd yn gysylltiedig â rhannu deunydd a gynhyrchwyd gan eraill.

Teimla cynrychiolwyr Iddewig yn gryf am rannu deunydd o wefannau penodol (ee Expose Israel); maent o'r farn y dylai'r Blaid gymryd camau i wrthsefyll rhannu deunydd a allai ymddangos ar yr wyneb yn gymharol ddiniwed ond sy'n tarddu o safleoedd sydd hefyd yn cynnwys lleferydd casineb a ffug-wybodaeth gyda chymhelliant gwleidyddol. Dylai'r Blaid ddisgwyl safonau diwydrwydd dyladwy ymysg ei hasiantau (gweler adolygiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol o'r Blaid Lafur) am eu bod yn gweithredu fel cynrychiolwyr a wyneb cyhoeddus Plaid Cymru. Maent yn ddylanwadwyr gweithredol yn y maes gwleidyddol cyhoeddus, a gall y Blaid yn ddiarwybod dramgwyddo Deddf Cydraddoldeb 2010 mewn rhai amgylchiadau. Fodd bynnag, dylai hyn fod yn gymesur fel rhan o ymgyrch ehangach i atal ffug-wybodaeth a hybu dealltwriaeth o ymgysylltiad gwleidyddol cyfoes ar gyfryngau cymdeithasol.

Mabwysiadodd Cyngor Cenedlaethol y Blaid godau cyfathrebu ar gyfer cynghorwyr ac ymgeiswyr ar 23 Ionawr 2021, sy'n braenaru'r tir ar gyfer mynd i'r afael â llawer o'r pryderon a godir yn yr adolygiad hwn; mabwysiadwyd codau cyfathrebu tebyg yn gynharach ar gyfer Aelodau Senedd San Steffan, Aelodau Seneddol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd. Dylai'r protocolau hyn helpu i leddfu pryderon a godwyd gan gynrychiolwyr Iddewig yn 2020, os cânt eu gweithredu yn llawn ac yn gyson.

Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y mae'r codau cyfathrebu hyn yn cyd-fynd â Rheolau Sefydlog y Blaid yn gyffredinol. Mae anhryloywder hefyd ynghylch sut mae gweithdrefnau disgyblu'r Senedd a grwpiau Seneddol yn cyd-fynd â gweithdrefnau disgyblu'r Blaid yn ganolog. Yn ogystal, nid yw'n amlwg sut y cymhwysir y cod i Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd, o ystyried nad oes swyddogaeth chwip.

Ymddengys yn y pen draw nad oes unrhyw sancsiynau ar gael i chwipiaid grŵp os bydd yr aelod etholedig yn parhau i weithredu'n groes i ofynion y protocol neu'n gwrthod cydymffurfio â gofynion y chwip.

Mae angen mynd i'r afael â'r holl faterion gweithdrefnol hyn.

Argymhellion ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a'r Codau Cyfathrebu	
Argymhelliad 2.1	<p>Mae angen mwy o eglurder ar frys ynghylch cymhwyso Codau Ymddygiad/Codau Cyfathrebu Grŵp (h.y. ar gyfer Aelodau Seneddol, Aelodau Seneddol, PCCs, cynghorydd ac ymgeiswyr) a gweithdrefn ddisgyblu ganolog y Blaid.</p> <p>Gweler hefyd Argymhelliad 1.9 parthed sancsiynau, a ddylai fod yn berthnasol i bob carfan berthnasol</p> <p>Mae'r argymhelliad hwn yn debygol o angen Rheol Sefydlog newydd.</p>
Argymhelliad 2.2	<p>Dylai rhaglen hyfforddi i gyd-fynd â'r Codau Cyfathrebu fod yn orfodol i bob aelod newydd o bob un o'r carfannau perthnasol, ac ar gael (o bosibl fel opsiwn gweithredu neu sancsiwn gofynnol, ond hefyd yn fwy cyffredinol) yn ôl yr angen ar gyfer aelodau mwy profiadol.</p>
Argymhelliad 2.3	<p>Dylai hyfforddiant ar y Cod Cyfathrebu gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • trafod yr angen am ddiwydrwydd dyladwy wrth rannu deunydd cyfryngau cymdeithasol • rôl aelodau etholedig ac ymgeiswyr fel cynrychiolwyr Plaid Cymru a dylanwadwyr/arweinwyr gwleidyddol yn eu cymunedau a thu hwnt, a moeseg sy'n gysylltiedig â'r rolau hyn • cyfeiriad at y rhestr o gamau gweithredu/sancsiynau gofynnol enghreifftiol y gellid eu gweithredu pe bai cwyn yn cael ei dderbyn gan bwyllgor disgyblu'r Blaid

4.3 Cofrestr Genedlaethol o Ymgeiswyr

Dylai'r Blaid adolygu ei phrosesau mewn perthynas â derbyn aelodau i'r Gofrestr Ymgeiswyr Genedlaethol am y tro cyntaf, ei chefnogaeth barhaus i'r aelodau hynny tra byddant ar y gofrestr a rhoi mwy o eglurder ynghylch yr amgylchiadau lle y gellir tynnu pobl oddi ar y gofrestr.

Mae gan y Blaid ddyletswydd gofal tuag at aelodau ar y Gofrestr Genedlaethol gan y rhagwelir y byddant yn cael eu craffu'n fanwl gan y cyhoedd yn enw Plaid Cymru. Mae pobl â nodweddion gwarchoddedig yn agored i gael eu cam-drin yn barhaus ar y cyfryngau cymdeithasol - er enghraifft, menywod BME, pobl LGBTQIA+ - ac mae angen i'r Blaid gynllunio i'w cefnogi'n briodol hyd orau ein gallu.

Fel datganiad cyffredinol, mae'n ymddangos ar brydiau nad yw'r Blaid bob amser yn cyflawni diwydrwydd dyladwy pan fydd aelodau newydd yn cael eu derbyn ar y Gofrestr Genedlaethol. Mae'r Blaid, a hynny'n briodol, yn anelu at gynwysoldeb, ac mae gennym ddyletswydd i ymdrechu i ddenu pobl o bob rhan o gymunedau amrywiol Cymru. Fodd bynnag, dylem fod yn effro i botensial mynediad amhriodol. Er bod cyn-aelodau o bleidiau gwleidyddol eraill i'w croesawu i'n rhengoedd fel rheol, mae angen inni roi sylw dyledus i ddiogelu ein gwerthoedd craidd a'r potensial ar gyfer niwed i enw da'r Blaid os bydd rhai unigolion yn dod â safbwyntiau gwrthsemitaidd profedig gyda hwy.

Argymhellion y Gofrestr Ymgeiswyr Cenedlaethol	
Argymhelliad 3.1	<p>Dylai presenoldeb blaenorol ar y cyfryngau cymdeithasol fod yn destun craffu wedi'i gofnodi ar gyfer holl ymgeiswyr y Gofrestr Genedlaethol cyn iddynt gael eu derbyn i'r Gofrestr.</p> <p>Dylai hyn fod ar ffurf cytundeb contractiol ar ran yr ymgeisydd, sef ei fod wedi datgelu'r holl negeseuon cyfryngau cymdeithasol blaenorol a allai yn rhesymol eu hystyried yn broblem posibl i'r Blaid yn y dyfodol. Dylai methiant i ddatgelu negeseuon o'r fath sydd yn ddiweddarach yn profi'n niweidiol i enw da Plaid Cymru fod yn fater disgyblu a ddylai, yn ddiofyn, arwain at ddileu'r unigolyn dan sylw o'r gofrestr. Efallai gallant ceisio cael eu hadfer yn y dyfodol o dan rai amgylchiadau neu pan fydd gofynion penodol wedi'u cyflawni.</p>

	<p>Os datgelir negeseuon hanesyddol problemus, mae angen proses ar y Blaid i ddyfarnu a yw cais yr unigolyn i'r Gofrestr Genedlaethol yn dal yn dderbyniol ai peidio. Os oes penderfyniad i fwrw ymlaen a bod yr ymgeisydd yn llwyddiannus, dylid rhoi cynllun adfer ar waith i ddelio â negeseuon o'r fath ar unwaith, ac i baratoi ar gyfer ymosodiadau gwleidyddol gelyniaethus yn y dyfodol.</p> <p>Dylid cadw cofnodion trylwyr a chyfrinachol</p> <p>Mae'r argymhelliad hwn yn debygol o angen Rheol Sefydlog newydd.</p>
Argymhelliad 3.2	<p>Dylai'r Blaid gadw cofnod o ba hyfforddiant amrywiaeth y mae ymgeiswyr ar gyfer y Gofrestr Ymgeiswyr Cenedlaethol wedi'i cael o'r blaen, ac ystyried a allai cofnod tebyg (h.y. drwy holiadur) gael ei gadw ar gyfer pob ymgeisydd am rolau mewnol.</p> <p>Gweler hefyd Argymhellion 2.2 a 5.2.</p>
Argymhelliad 3.3	<p>Dylid gwella dyletswydd gofal y Blaid tuag at ein holl ymgeiswyr.</p> <p>Dylai ymgeiswyr y Gofrestr Genedlaethol sydd â nodweddion gwarchoddedig a nodwyd (h.y. ymgeiswyr BME, yn enwedig menywod, ac eraill) gael rhwydwaith cymorth hirdymor a ddarperir gan y Blaid wrth ragweld aflonyddu niweidiol ar y cyfryngau cymdeithasol.</p> <p>Mae angen trafod natur y cymorth hwn ymhellach.</p>
Argymhelliad 3.4	<p>Mae peryglon posibl mynediad amhriodol yn haeddu ystyriaeth bellach: mae angen i Blaid Cymru sicrhau bod gwerthoedd craidd y Blaid yn cael eu gwneud yn glir i aelodau newydd, a'u bod yn ymrwymo i gynnal y gwerthoedd hynny.</p> <p>Dylai Plaid Cymru bob amser geisio cynnig croeso gwleidyddol eang ac hyrwyddo amrywiaeth, tra hefyd yn cynnal egwyddorion y Blaid.</p> <p>Efallai y bydd angen Rheol Sefydlog newydd ar gyfer yr argymhelliad hwn.</p>

4.4 Ymgysylltiad y Blaid â chymunedau a materion gwleidyddol BME

Mae Plaid Cymru yn datgan nod cyfansoddiadol o adeiladu ‘*cymuned genedlaethol sy’n seiliedig ar ddinasyddiaeth gyfartal, parch at wahanol draddodiadau a diwylliannau a gwerth cyfartal pob unigolyn, beth bynnag fo’u hil, cenedligrwydd, rhyw, lliw, cred, rhywioldeb, oedran, gallu neu gefndir cymdeithasol*’. Felly dylai’r Blaid geisio cymhwyso’r gwerth craidd hwn yn benodol yn ei holl weithgareddau.

Ymgysylltu â chymunedau BME	
Argymhelliad 4.1	Dylai cymorth pellach fod ar gael i adran BME Plaid Cymru a’r Cyfarwyddwr Cydraddoldeb ar y Pwyllgor Gwaith wrth iddynt gyfrannu at well dealltwriaeth gan y Blaid o amrywiaeth ac ymgysylltu’n ehangach â phobl o wahanol gymunedau yng Nghymru.
Argymhelliad 4.2	Dylai’r Blaid barhau i geisio denu aelodau a darpar ymgeiswyr Cofrestr Genedlaethol o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig Cymru. Dylai materion strwythurol a allai atal pobl o’r fath yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol rhag cymryd rhan ym Mhlaid Cymru gael eu nodi a’u datrys hyd eithaf ein gallu. Gweler hefyd Argymhelliad 3.3
Argymhelliad 4.3	Dylai’r Blaid chwilio am gyfleoedd i gyflogi neu gynnig rôl fel intern â thâl i bobl o gymunedau BME, gan ddefnyddio cyfleoedd fel modd i ddysgu am effaith gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol mewn sefydliadau yng Nghymru, i normaleiddio profiad pobl o gymunedau BME o fewn diwylliant gwleidyddol y Blaid, ac i annog cyfranogiad pellach gan gymunedau o’r fath.

<p>Argymhelliad 4.4</p>	<p>Mae Pwynt 4 y Cylch Gorchwyl yn nodi:</p> <p><i>Ystyried a yw unrhyw faterion a adnabyddir yn ystod yr adolygiad yn berthnasol i feysydd rhagfarn ehangach, gan gynnwys Islamoffobia, hiliaeth a chamwahaniaethu ar sail unrhyw nodwedd arall a amddiffynnir, a gwneud argymhellion mewn perthynas â polisiau, gweithdrefnau a strwythurau'r Plaid ar eu sail.</i></p> <p>Ni theimlir bod y mater hwn wedi'i archwilio'n ddigonol o fewn amserlen ac adnoddau parod yr Adolygiad Gwrthsemitiaeth.</p> <p>Argymhellir cynnal ymgynghoriad pellach ynghylch polisi a diwylliant y Plaid gyda Chyngor Mwslimiaid Cymru; Adran BME Plaid Cymru, Cyfarwyddwr Cydraddoldebau'r Pwyllgor Gwaith a sefydliadau gwrth-hiliaeth eraill eleni; a chyda grwpiau LGBTQIA+ a'u cynrychiolwyr gyda'r un flaenoriaeth.</p> <p>Bydd nodweddion gwarchodedig eraill yn haeddu trafodaeth debyg cyn gynted â phosibl.</p>
--------------------------------	--

4.5 Sefydlu diwylliant nad yw'n goddef gwrthsemitiaeth

Mae newid diwylliant sefydliad yn anodd ei fesur o ran meini prawf perfformiad a chanlyniadau o fewn amserlen benodol. Awgrymwyd rhai gweithgareddau yn ystod ymgynghoriad yr adolygiad. Dyma sail yr argymhellion canlynol.

Newid diwylliant	
Argymhelliad 5.1	Trefnu i gynrychiolwyr cyrff Iddewig yng Nghymru/y DU ystyried argymhellion yr adroddiad hwn a'i destun terfynol cyn ei gyhoeddi, gyda'r nod o gynnal digwyddiad lansio gydag Arweinydd y Blaid yn chwarae rhan flaenllaw.
Argymhelliad 5.2	<p>Parhau i ddarparu hyfforddiant gwrthsemitiaeth i bob ymgeisydd, aelodau newydd o'r Gofrestr Ymgeiswyr Genedlaethol a swyddogion Tŷ Gwynfor na fynychodd y sesiynau hyfforddi ar 6 Tachwedd a 14 Rhagfyr 2020.</p> <p>Dylai'r hyfforddiant hwn hefyd fod ar gael i unrhyw aelod o Blaid Cymru. Dylid ystyried hyfforddiant gwrthsemitiaeth fel proses barhaus yn hytrach na digwyddiad untro, gan fod amlygiadau o wrthsemitiaeth yn esblygu'n gyson.</p> <p>Gwahodd aelodau o gymuned Iddewig yng Nghymru i arsylwi a/neu gymryd rhan mewn hyfforddiant gwrthsemitiaeth a gynigir gan Blaid Cymru yn y dyfodol.</p>
Argymhelliad 5.3	<p>Y Cyfarwyddwr Cydraddoldebau i asesu gwerth:</p> <ol style="list-style-type: none"> i. cynnal hyfforddiant rhagfarn diarwybod i garfannau tebyg, gan gynnwys pob cynrychiolydd etholedig llawn amser ii. trefnu rhaglen eang o hyfforddiant sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchoddedig iii. cynnal trafodaeth fewnol gan y Blaid mewn perthynas â gwrthsemitiaeth y Chwith a rhagfarn diarwybod, gyda'r bwriad o drefnu digwyddiadau parhaus sy'n gyhoeddus ac o fewn Plaid Cymru

<p>Argymhelliad 5.4</p>	<p>Gyda Phlaid BME a'r Cyfarwyddwr Cydraddoldebau, ystyried y llenyddiaeth gyfoes a'r adnoddau eraill sydd ar gael i lywio trafodaeth gyhoeddus am wrthdaro Israel-Palestinaid mewn ffordd nad yw'n wenwynig, a threfnu trafodaeth/hyfforddiant parhaus i alluogi trafodaeth o'r fath heb hiliaeth na gwrthsemitiaeth.</p> <p>Gallai hyn gynnwys cefnogi rhaglen Buddsoddi mewn Heddwch y Bwrdd Dirprwyon, lle mae Israeliaid a Phalestinaid yn esbonio sut mae eu bywydau wedi dylanwadu ar eu safbwyntiau, ac ateb cwestiynau.</p>
--------------------------------	--

4.6 Cynnal newid diwylliant

Gellir disgwyl bydd cwynion pellach am wrthsemitiaeth bron yn anochel. Dylid trin y cwynion hyn fel cyfle yn hytrach na bygythiad, gan y byddant yn galluogi'r Blaid i bwysleisio'r newidiadau a argymhellir yn yr Adolygiad hwn.

Yn ystod y cyfnod nesaf o 12 mis, mae angen i lwyddiant o ran ymgysylltiad y Blaid â mynd i'r afael â gwrthsemitiaeth gynnwys sgysiau parhaus ac adeiladol hunanarfarnu gyda sefydliadau Iddewig yng Nghymru a thu hwnt.

Bydd gweithredu Argymhelliad 6.1 yn llwyddiannus - sef comisiynu a mabwysiadu Cynllun Gweithredu Gwrthsemitiaeth gan Bwyllgor Gwaith Cenedlaethol Plaid Cymru - yn gosod y sylfaen ar gyfer newidiadau ehangach i ddiwylliant na allant ond cryfhau enw da'r Blaid yn y dyfodol.

Meini prawf llwyddiant	
Argymhelliad 6.1	Y Pwyllgor Gwaith i gomisiynu a mabwysiadu Cynllun Gweithredu Gwrthsemitiaeth gan nodi cyfrifoldeb a calendr camau gweithredu yn glir, a fydd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i argymhellion fersiwn derfynol Adolygiad Gwrthsemitiaeth Plaid Cymru.
Argymhelliad 6.2	Arweinydd y Blaid i gynnal trafodaethau myfyriol gyda chynrychiolwyr Iddewig o leiaf ddwywaith yn ystod 2021 i werthuso cynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredu Gwrthsemitiaeth y Blaid, ac i gadw mewn cysylltiad rheolaidd tua'r dyfodol.

